# SL(6)530 – Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod pensiynau'r diffoddwyr tân yn cael eu hailbrisio gan ddefnyddio'r gyfradd gywir mewn perthynas â 2021 a 2022, drwy gywiro problem sy'n codi o ganlyniad i Orchmynion Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a wneir gan Drysorlys EF ar gyfer y ddwy flynedd hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud rhai mân gywiriadau i Reoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 a Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod rheoliad 3, sy'n diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 i gywiro mater ynghylch prisio hawliau pensiwn cronedig ar gyfer 2021 a 2022, yn cael effaith ôl-weithredol ac:

> *Mae hyn yn anochel: mae'n cywiro gwall a wnaed gan Drysorlys Ei Fawrhydi a effeithiodd ar gyfrifiad pensiwn cronedig ar gyfer y blynyddoedd 2021 a 2022. Daeth y gwall hwnnw i'r amlwg ar ôl i'r cyfrifiadau perthnasol gael eu gwneud a dim ond yn ôl-weithredol y gellir ei gywiro.*

Fodd bynnag, mae'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi bod rheoliad 4 hefyd yn cael effaith ôl-weithredol ac nid yw hyn wedi'i esbonio yn y Memorandwm Esboniadol. Byddai'n ddefnyddiol deall pam nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn mynd i'r afael ag effaith ôl-weithredol rheoliad 4.

Caniateir effaith ôl-weithredol y darpariaethau hyn gan adran 3(3)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad o'r blaen ar Reoliadau 2023 a Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ("Gorchymyn 2024"). Nodwyd sawl pwynt yn yr adroddiadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn datgan bod rheoliadau 4 a 5 yn mynd i'r afael â nifer o'r pwyntiau hynny. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas ag un o'r pwyntiau adrodd a godwyd yn flaenorol. Mae ei llythyr yn nodi fel a ganlyn:

> *... rwyf hefyd wedi rhoi ystyriaeth bellach i bwynt Craffu Technegol 6 adroddiad eich Pwyllgor ar Orchymyn 2024. Yn ein hymateb i'r pwynt hwnnw, nodwyd y gwahaniaeth rhwng testunau'r Gymraeg a'r Saesneg yn y pennawd ar gyfer paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn, a chadarnhawyd y dylai'r testun Cymraeg fod wedi'i ddrafftio i adlewyrchu'r testun Saesneg. Yn wreiddiol, roeddem wedi cynnig diwygio'r testun Cymraeg yn unol â hynny cyn gynted ag y gallwn.*
>
> *Erbyn meddwl mwy am hyn, rwy'n credu ei bod yn fwy priodol caniatáu i'r pennawd hwnnw aros fel y mae yn y testun Cymraeg. Y ffordd orau o ymdrin â'r gwelliant sydd ei angen i fodloni pwynt Craffu Technegol 3 yw diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. Felly, er mwyn ymdrin â phwynt Craffu Technegol 6, byddai'n rhaid inni hefyd ddiwygio Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio (Cymru) 2024. O ystyried nad yw'r pennawd dan sylw yn weithredol, ac nad yw'n cael ei gario ymlaen i'r offeryn diwygiedig (Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007), byddai unrhyw fudd o wneud diwygiad o'r fath yn ddibwys, ac felly nid wyf yn ystyried y byddai'n gymesur i wneud hynny.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer y pwynt adrodd cyntaf yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Hydref 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.